



Grŵp Cyngori Cymru ar Adar sy'n Bwyta Pysgod

Cefndir

Nodwyd bod gwaith i adolygu'r sefyllfa yng Nghymru o ran adar pysgysol a'u heffaith ar boblogaethau pysgod dŵr croyw yn ofniad mewn trafodaeth gan y bwrdd ar gynigion rheoleiddiol pysgodfeydd ym mis Ionawr 2018.

O ganlyniad, cafodd dau weithgor arbenigol eu sefydlu i ymgymryd â'r gwaith hwn: -

1. Gweithgor mewnol yn tynnu oddi ar arbenigedd adareg a physgodfeydd o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru
2. Grŵp cyngori allanol, yn tynnu oddi ar brofiad cyrff anllywodraethol priodol i adolygu gwybodaeth a chyngor Cyfoeth Naturiol Cymru cyn cyflwyno'r canlyniadau i fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2019

Mae'r papur hwn yn cyflwyno: -

- A. y sefyllfa bresennol
- B. cylch gorchwyl cytunedig y grŵp cyngori allanol

A. Grŵp Cyngori Cymru ar Adar sy'n Bwyta Pysgod: Adroddiad Cynnydd

Cynhaliodd Grŵp Cyngori Cymru ar Adar sy'n Bwyta Pysgod¹ (a elwir o hyn ymlaen yn 'Grŵp Cyngori') ei gyfarfod cyntaf ar 3 Gorffennaf 2018, lle y cytunwyd y bydd cylch gwaith y grŵp hwn yn:

- ystyried effeithiau ysglyfaethu gan fulfrain a hwyaid danheddog yn unig ar yr holl rywogaethau o bysgod a geir o fewn dalgylchoedd dŵr mewndirol
- adolygu ac ystyried profiad yn yr Alban a Lloegr
- ceisio safbwyntiau a chyngor oddi wrth aelodau'r grŵp o ran gofynion ar gyfer Cymru
- llunio papur argymhellion i fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru
- sicrhau bod unrhyw argymhellion dilynol o fewn y fframwaith cyfreithiol a pholisi presennol, neu maent yn nodi lle y byddai angen newidiadau deddfwriaethol neu bolisi

Cytunodd y Grŵp Cyngori mai'r allbwn allweddol fydd y papur argymhellion i fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi a oes adolygiad ffurfiol o ddull gweithredu Cymru i adar sy'n bwyta pysgod yn ofynnol, ac, os felly, bydd yn amlinellu cylch gorchwyl, cwmpas, amserlenni a safon tystiolaeth awgrymedig, sydd eu hangen er mwyn cynnal adolygiad o'r fath a arweinir gan dystiolaeth o effeithiau adar sy'n bwyta pysgod yng Nghymru.

Byddai'r argymhelliad hwn, os yw'n cael ei dderbyn, wedyn yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru gan fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru.

¹ Mae Grŵp Cyngori Cymru ar Adar sy'n Bwyta Pysgod yn cynnwys: Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Natural England, Ymddiriedolaeth Adareg Prydain, y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar Cymru, Cymdeithas Adareg Cymru, CEFAS, yr Ymddiriedolaeth Genweirio, Afonydd Cymru, a Gwarchod Eog a Brithyll y DU.

Mae'r camau gweithredu allweddol a nodwyd hyd yn hyn yn cael eu rhestru isod.

Cam gweithredu	Disgrifiad	Arweinydd	Dyddiad i'w gwblhau	Cofnod statws
1	Cylch gorchwyl cytunedig ²	Cyfoeth Naturiol Cymru	3 Awst 2018	Cwblhawyd
2	Nodi fframwaith polisi hanesyddol ar gyfer adar sy'n bwyta pysgod yng Nghymru	Llywodraeth Cymru	15 Tachwedd 2018	Yn parhau
3	Paratoi nodyn briffio byr i nodi'r gwahaniaethau o ran arferion afonol a physgodfeydd yng Nghymru o'u cymharu â Lloegr a'r Alban	Yr Ymddiriedolaeth Genweirio, CEFAS, Ymddiriedolaeth Adareg Prydain a Cyfoeth Naturiol Cymru	1 Awst 2018	Yn weddill
4	Llunio a chyflwyno papur adolygu cryno o ganfyddiadau'r adolygiadau o bolisi a thystiolaeth mewn perthynas ag adar sy'n bwyta pysgod yn yr Alban a Lloegr ³ Penderfynu ar gymhwysedd canfyddiadau'r papur cryno ar gyfer Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru Cyfoeth Naturiol Cymru	3 Gorffennaf 2018 15 Tachwedd 2018	Cwblhawyd
5	Creu rhestr o bapurau a dogfennau perthnasol	Y cyfan	31 Hydref 2018	Yn parhau
6	Casglu a chyflwyno dull gweithredu Cyfoeth Naturiol Cymru i geisiadau am drwyddedau adar sy'n bwyta pysgod ⁴	Cyfoeth Naturiol Cymru	3 Gorffennaf 2018	Cwblhawyd
7	Adolygu proses bresennol gwneud cais am drwydded Cyfoeth Naturiol Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru, Ymddiriedolaeth Adareg Prydain, Afonydd Cymru	15 Tachwedd 2018	Yn parhau
8	Cynnal ail a thrydydd cyfarfod dilynol	Cyfoeth Naturiol Cymru	13 Tachwedd 2018 12 Chwefror 2019	

Patrick Lindley (Uwch-adaregydd, Cyfarwyddiaeth Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu) a Peter Gough (Prif Gynghorydd Pysgodfeydd, Cyfarwyddiaeth Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu)

² [Cylch gorchwyl Grŵp Cynghori Cymru ar Adar sy'n Bwyta Pysgod](#)

³ [Papur cryno o bolisi ar adar sy'n bwyta pysgod yn Lloegr ac adolygiad o'r dystiolaeth yn yr Alban](#)

⁴ [Gweithdrefn trwydded Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer adar sy'n bwyta pysgod](#)



Grŵp Cyngchori Cymru ar Adar sy'n Bwyta Pysgod

B. Cylch Gorchwyl

1. Cyflwyniad

Mae tystiolaeth yn y DU fod adar pysgysol yn gallu cymryd niferoedd mawr o bysgod o bysgodfeydd naturiol a rhai sydd wedi'u stocio. Bu effeithiau posibl tair rhywogaeth pysgysol (mulfran, hwyaden ddanheddog a hwyaden ddanheddog fronrudd) ar bysgodfeydd gwyllt a physgodfeydd wedi'u stocio yn ganolbwynt adolygiad polisi yn Lloegr (DEFRA, 2013)⁵ ac adolygiad diweddar yn yr Alban (Harris ac eraill, 2008,⁶ Treftadaeth Naturiol yr Alban, 2015)⁷ ond nid oes unrhyw adolygiad wedi'i gynnal yng Nghymru. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn dymuno cadarnhau a oes adolygiad wedi'i arwain gan dystiolaeth i archwilio effeithiau ysglyfaethu gan adar sy'n bwyta pysgod ar boblogaethau naturiol o bysgod a physgodfeydd mewndirol yn ofynnol yng Nghymru er mwyn llywio'r broses o wneud penderfyniadau'n well.

Ar hyn o bryd, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithredu fel yr awdurdod trwyddedu ar gyfer rhoi trwyddedau i reoli adar sy'n bwyta pysgod lle y bônt yn achosi, neu'n debygol o achosi, niwed difrifol i bysgodfeydd mewndirol yng Nghymru.

Gallai trwyddedau gael eu rhoi os oes meini prawf penodol yn Adran 16 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yn cael eu bodloni.

Ym mis Ionawr 2018, gwnaeth bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru gymeradwyo'r cais i Lywodraeth Cymru am reolaethau pysgota newydd ar afonydd Cymru i gefnogi'r broses o adfer poblogaethau o eogiaid a brithyllod y môr. Yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y mesurau hyn, cyflwynwyd awgrymiadau ar gyfer nifer o faterion eraill y dylid mynd i'r afael â nhw i wella poblogaethau o bysgod, gydag effaith pysgod sy'n bwyta adar yn fater a godwyd fwyaf gan yr ymatebwyr. Yn y cyfarfod ym mis Ionawr 2018, felly, gwnaeth bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru nodi hefyd amrywiaeth o fesurau eraill roeddent yn dymuno canolbwyntio ymdrechion arnynt, gan gynnwys archwilio pryderon y sector pysgota o ran effaith adar sy'n bwyta pysgod ar gyflenwadau pysgod. Mae sefydlu'r Grŵp Cyngchori ar Adar sy'n Bwyta Pysgod hwn yn ymateb i'r her hon.

2. Diben

Mae Grŵp Cyngchori Cymru ar adar sy'n Bwyta Pysgod (a elwir o hyn ymlaen yn 'Grŵp Cyngchori') yn grŵp ar y cyd rhwng sefydliadau sy'n cynrychioli sectorau'r llywodraeth, cadwraeth a rheoli bysgodfeydd. Bydd y Grŵp Cyngchori yn nodi tystiolaeth ac yn cadarnhau barn arbenigol er mwyn sicrhau bod polisi Cymru yn parhau i fod yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael ac yn gadarn ac yn addas at y diben.

⁵ 'Impacts of predation by fish-eating birds on inland fisheries in England: final report and recommendations' (DEFRA, Gorffennaf 2013)

⁶ Harris, C. M., Calladine, J., Wernham, C. W. a Park, K. J., 2008, 'Impacts of piscivorous birds on salmonid populations and game fisheries in Scotland: a review', *Wildlife Biology*, **14**(4), 395–411

⁷ Humphreys, E. M., Gillings, S., Musgrove, A., Austin, G., Marchant, J. a Calladine, J., 2016, 'An update of the review on the impacts of piscivorous birds on salmonid populations and game fisheries in Scotland', *Scottish Natural Heritage Commissioned Report No. 884*

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn helpu i lywio'r Grŵp Cynghori gyda chyngor arbenigol oddi wrth ei staff, yn arbennig oddi wrth y Gyfarwyddiaeth Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu, a thrwy weithio'n agos â'r unigolion a/neu sefydliadau hynny sydd â thystiolaeth a gwybodaeth yn y maes.

Bydd y Grŵp Cynghori yn gwneud fel a ganlyn:

- Adolygu rhyngweithiadau ac effeithiau adar pysgysol ar salmonidau a physgodfeydd mewndirol
- Adolygu ac ystyried profiad yn yr Alban a Lloegr
- Ceisio safbwyntiau a chyngor oddi wrth aelodau o'r grŵp yn ymwneud â'r gofynion ar gyfer Cymru
- Llunio argymhellion ar gyfer y camau nesaf
- Sicrhau bod unrhyw argymhellion dilynol o fewn y fframwaith polisi a chyfreithiol presennol, neu eu bod yn nodi lle byddai newidiadau deddfwriaethol neu bolisi yn ofynnol

3. Cwmpas

Bydd y Grŵp Cynghori yn gwneud fel a ganlyn:

- Ystyried effeithiau ysglyfaethu gan y fulfran a'r hwyaden ddanheddog ar yr holl rywogaethau o bysgod a geir o fewn dalgylchoedd mewndirol yng Nghymru
 - Cydnabod bod y pysgod a'r adar yn elfennau allweddol o fioamrywiaeth, diwylliant ac economi Cymru
 - Parchu treftadaeth ddiwylliannol pobl a busnesau yng Nghymru sy'n gysylltiedig â'r rhywogaethau hyn, yn arbennig pysgota
 - Cydnabod bod bywyd gwylt a physgodfeydd Cymru yn eiconig ac yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr ac yn cyfrannu at gymunedau hyfyw a bywiog yng Nghymru

Ni fydd y Grŵp Cynghori yn gwneud fel a ganlyn:

- Ystyried yn fanwl effaith ffactorau allanol ehangach megis newid yn yr hinsawdd naill ai ar bysgod neu ar adar

4. Aelodaeth

Bydd y Grŵp Cynghori yn cynnwys cynrychiolwyr o'r isod: Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, Ymddiriedolaeth Adareg Prydain, Cymdeithas Adareg Cymru, Afonydd Cymru, Gwarchod Eog a Brithyll Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genweirio, CEFAS, Natural England (gweler Atodiad 1 am y rhestr o aelodau a manylion cyswllt).

5. Allbynnau

Allbwn allweddol y grŵp hwn fydd papur argymhellion i fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi a oes adolygiad ffurfiol o ddull gweithredu Cymru i adar sy'n bwyta pysgod yn ofynnol, ac, os felly, bydd yn amlinellu cylch gorchwyl, cwmpas, amserlenni a safon tystiolaeth awgrymedig y Grŵp Cynghori, sydd eu hangen er mwyn cynnal adolygiad o'r fath a arweinir gan dystiolaeth o effeithiau adar sy'n bwyta pysgod yng Nghymru. Byddai'r argymhelliad hwn, os yw'n cael ei dderbyn, yn cael ei gyflwyno wedyn i Lywodraeth Cymru gan fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru.

Bydd y Grŵp Cynghori yn cael ei gyfyngu o ran amser, gan anelu at gyflwyno'r argymhellion i fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Mawrth 2019 (gweler Atodiad 2 ar gyfer yr amserlen).

Er mwyn cyflawni'r allbwn allweddol, gallai fod yn angenrheidiol comisiynu gwaith pellach i gasglu tystiolaeth a data.

6. Dull gweithredu

- Bydd y cyfarfodydd yn cael eu cadeirio gan Cyfoeth Naturiol Cymru.
 - Bydd agendâu a chofnodion yn cael eu darparu gan Cyfoeth Naturiol Cymru, ac mae hyn yn cynnwys: paratoi agendâu a phapurau ategol, cwblhau nodiadau cyfarfod, a gwybodaeth.
 - Rhagwelir y bydd tri chyfarfod Grŵp Cynghori (mis Gorffennaf 2018, mis Tachwedd 2018 a mis Chwefror 2019).
 - Disgwylir y bydd cyfnewid gwybodaeth rhwng cyfarfodydd, yn ôl y galw.
 - O dro i dro, ac ar ôl derbyn cytundeb aelodau'r Grŵp Cynghori, gallai arbenigwyr eraill gael eu gwahodd i fynychu pan fo angen trafod gwybodaeth o natur benodol.
- **Bydd aelodau o'r Grŵp Cynghori yn ymrwmo i'r isod:**
 - a. mynychu pob cyfarfod a amserlennwyd (neu, os yw'n angenrheidiol, enwebu dirprwy)
 - b. rhannu'r holl gyfathrebu a gwybodaeth â'r holl aelodau
 - c. gwneud penderfyniadau amserol a chymryd camau gweithredu er mwyn peidio â pheri oedi i'r prosiect
 - d. hysbysu aelodau'r Grŵp Cynghori cyn gynted ag y bo'n ymarferol os oes unrhyw broblem yn codi y tybir a allai effeithio ar ddatblygiad yr adolygiad o adar sy'n bwyta pysgod yng Nghymru
 - e. sicrhau nad yw gwaith y Grŵp Cynghori, a thrafodaethau o fewn y cyfarfodydd, yn cael eu rhannu'n allanol, oni bai a than fod yr holl aelodau wedi cytuno ar hynny
 - f. mabwysiadu dull cydweithredol a pharchu safbwyntiau aelodau eraill a gweithredu mewn modd proffesiynol bob amser

7. Cyfathrebu

- Bydd nodiadau'r holl gyfarfodydd Grŵp Cynghori yn cael eu llunio gan Cyfoeth Naturiol Cymru a'u cylchredeg yn electronig i aelodau'r grŵp o fewn 14 diwrnod gwaith.
- Ar ôl iddynt gael eu hadolygu a'u cytuno gan y Grŵp Cynghori, bydd y nodiadau yn cael eu cyhoeddi ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru. Gall aelodau wedyn anfon yr adroddiadau perthnasol at bobl eraill.

8. Diwygio, addasu neu amrywio

Gall y cylch gorchwyl hwn gael ei ddiwygio, ei addasu neu ei amrywio drwy ymgynghoriad a chytundeb aelodau'r Grŵp Cynghori yn unig.

Mabwysiadwyd gan y Grŵp Cynghori ar 0000

Papur a baratowyd gan Peter Gough, (Prif Gynghorydd Pysgodfeydd, Cyfarwyddiaeth Tystiolaeth, Polisi a Thryddedu), 26 Mehefin 2018.

Diwygiwyd ar 13 Gorffennaf 2018.

Atodiad 1. Aelodaeth Grŵp Cyngori Cymru ar Adar sy'n Bwyta Pysgod

Mae Grŵp Cyngori Cymru ar Adar sy'n Bwyta Pysgod yn cynnwys yr unigolion canlynol:

Simon Bilsborough, Llywodraeth Cymru

Jeremy Frost, Llywodraeth Cymru

Madeleine Havard, Cyfoeth Naturiol Cymru

Peter Gough, Cyfoeth Naturiol Cymru

Carys Roberts, Cyfoeth Naturiol Cymru

Ben Wilson, Cyfoeth Naturiol Cymru

Patrick Lindley, Cyfoeth Naturiol Cymru

Nigel Shelton, Natural England

Heather Galliford, y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar

Rachel Taylor, Ymddiriedolaeth Adareg Prydain

Mick Green, Cymdeithas Adareg Cymru

Mark Lloyd, yr Ymddiriedolaeth Genweirio

neu Mark Owen, yr Ymddiriedolaeth Genweirio

Ian Russell, CEFAS

Stephen Marsh-Smith, Afonydd Cymru

Richard Garner-Williams, Gwarchod Eog a Brithyll

Atodiad 2. Amserlen

Amcangyfrifir y bydd y gwaith hwn yn cymryd tua deg mis i'w gwblhau (h.y. o'r cyfarfod cynghori cyntaf i gyflwyno'r datganiad terfynol i Lywodraeth Cymru).

Mae'r meysydd sydd wedi'u lliwio'n wyrdd yn cynrychioli cerrig milltir allweddol.

Gweithgaredd	Arweinydd	Dyddiad	Statws
Llywodraethu mewnol			
Diffinio rôl ac aelodaeth gweithgor mewnol Cyfoeth Naturiol Cymru ar adar sy'n bwyta pysgod ¹	Patrick Lindley	Mehefin 2018	Cwblhawyd
Grŵp Cynghori Cymru ar Adar sy'n Bwyta Pysgod			
Cytuno ar aelodaeth Grŵp Cynghori Cymru ar Adar sy'n Bwyta Pysgod	Peter Gough a Patrick Lindley	Mehefin 2018	Cwblhawyd
Paratoi a chylchredeg papurau ar gyfer cyfarfod cyntaf Grŵp Cynghori Cymru ar Adar sy'n Bwyta Pysgod	Peter Gough a Patrick Lindley	18 Mehefin 2018	Cwblhawyd
Cynnal cyfarfod cyntaf Grŵp Cynghori Cymru ar Adar sy'n Bwyta Pysgod	Peter Gough a Patrick Lindley	3 Gorffennaf 2018	Cwblhawyd
Cytuno ar gylch gorchwyl	Grŵp Cynghori	3 Gorffennaf 2018	Yn cael ei baratoi
Gosod amserlen y cyfarfodydd	Peter Gough a Patrick Lindley	Tachwedd 2018 Chwefror 2019	I'w gadarnhau
Asesu			
Nodi ac asesu opsiynau a goblygiadau o ran adnoddau comisiynu gwaith pellach (e.e. adolygiadau o fioleg poblogaethau, technegau rhifo, modelu poblogaeth)	Cyfarfodydd Grŵp Cynghori Cymru ar Adar sy'n Bwyta Pysgod	30 Tachwedd 2018	
Llunio datganiad terfynol Grŵp Cynghori Cymru ar Adar sy'n Bwyta Pysgod, gan gynnwys cynnwys awgrymedig adolygiad polisi a arweinir gan dystiolaeth	Grŵp Cynghori Cymru ar Adar sy'n Bwyta Pysgod	Mawrth 2019	
Camau llywodraethu terfynol Cyfoeth Naturiol Cymru			
Adroddiad ar gynnydd i gyfarwyddwyr Grŵp Strategaeth Gweithrediadau	Peter Gough a Patrick Lindley	Medi 2018 Tachwedd 2018 Chwefror 2019	
Cyflwyno adroddiadau ar gynnydd i fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru	Peter Gough a Patrick Lindley	Mehefin 2018 Tachwedd 2018 Ionawr 2019	
Cyflwyno papur i fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi manylion ac yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer datganiad terfynol y Grŵp Cynghori ar Adar sy'n Bwyta Pysgod	Peter Gough a Patrick Lindley	Mawrth 2019	
Os yw'n cael ei dderbyn gan fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru, cyflwyno datganiad terfynol i Lywodraeth Cymru	Grŵp Strategaeth Gweithrediadau	Ebrill 2019	

Sylwer:1. Mae **gweithgor mewnol Cyfoeth Naturiol Cymru ar adar sy'n bwyta pysgod** yn grŵp mewnol o arbenigwyr a staff Gweithrediadau Cyfoeth Naturiol Cymru.